

# Gwaith chwarae



**Yn y diwydiant hwn bydd dysgwyr yn gweithio gyda phlant 5 i 15 oed mewn amrywiaeth o leoliadau i helpu i hyrwyddo datblygiad iach, llesiant plant ac i gefnogi chwarae hunangyfeiriedig y mae'r plant yn ei ddewis.**

Bydd prentisiaid yn treulio amser yn dysgu gwybodaeth graidd ac egwyddorion gwaith chwarae yn y gweithle yn ogystal â chael eu hasesu gan ein timau asesu sydd â phrofiad yn y diwydiant. Bydd angen llawer o egni, creadigrwydd ar ddysgwyr yn y diwydiant hwn a gallu gweithio'n dda fel rhan o dîm.

## Cymwysterau rydym yn eu cynnig

Cwrs	Gofynion mynediad	Hyd arferol	Dull astudio ac asesu	Lleoliad
Lefel 2 mewn Gwaith chwarae	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol yn gweithio gyda phlant 5 - 15 oed mewn amgylchedd chwarae	12 mis	Yn y gwaith gydag asesiad yn y gweithle	Yn y gwaith
Lefel 3 mewn Gwaith chwarae	Cyflogaeth mewn diwydiant perthnasol yn gweithio gyda phlant 5 - 15 oed mewn amgylchedd chwarae	16 mis	Yn y gwaith gydag asesiad yn y gweithle	Yn y gwaith

## Ystadegau/disgwyliadau cyflog y diwydiant

Ar ôl cymhwyso, gall gweithwyr yn y sector hwn ddisgwyl cyflog blynyddol cyfartalog o rhwng £15,000 a £22,000 yn dibynnu ar brofiad

## Awgrym gorau

Ceisiwch gysylltu â chwmnïau lleol yn uniongyrchol os ydych yn chwilio am brentisiaeth neu cadwch lygad am ddigwyddiadau recriwtio wedi'u trefnu gan y Coleg os ydych yn fyfyrwr llawn amser.